# ATODLENNI

## ATODLEN 1

Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan na chynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad arall

## RHAN 3

### Y Bleidlais mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

Camau i'w cymryd cyn y bleidlais

**Hysbysu'r gofyniad cyfrinachedd**

**35.**—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau i sicrhau bod pawb sy'n bresennol mewn gorsaf bleidleisio, heblaw am berson a ddisgrifir ym mharagraff (2)(a) i (d), wedi cael hysbysiad yn nodi darpariaethau adran 66(1), (3) a (6) o Ddeddf 1983(**1**).

(2) Y personau nad yw'r ddyletswydd o dan baragraff (1) yn gymwys iddynt yw—

(a) person sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio at ddiben pleidleisio;

(b) person o dan 16 oed sy'n mynd yng nghwmni pleidleisiwr i'r orsaf bleidleisio;

(c) person sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio fel cydymaith pleidleisiwr ag anableddau;

(d) person sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio fel cwnstabl ar ddyletswydd.

(3) Yn y rheol hon, mae cyfeiriad at gwnstabl yn cynnwys cyfeiriad at berson a ddynodwyd yn swyddog cymorth cymunedol neu'n wirfoddolwr cymorth cymunedol o dan adran 38 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002(**2**) (pwerau'r heddlu i staff sy'n sifiliaid a gwirfoddolwyr).

(**1**) Diwygiwyd adran 66 o Ddeddf 1983 gan baragraffau 82 ac 86 o Atodlen 1 i Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 a pharagraff 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985; mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheolau hyn.

(**2**) 2002 p. 30. Diwygiwyd adran 38 gan adran 38 o Ddeddf Plismona a Throseddu 2017.